**Rhif: WG48223**

Llywodraeth Cymru

# Ffurflen ymateb i’r ymgynghoriad

## Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2023
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Ionawr 2024

OGL © Hawlfraint y Goron 2023

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Saesneg.

# Trosolwg

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi amrywiaeth o gynigion ar gyfer newidiadau i bolisi a'r gyfraith, i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

## Sut i ymateb

Byddwch cystal â chyflwyno'ch sylwadau erbyn 16 Ionawr 2024, yn un o'r ffyrdd canlynol:

- cwblhau ein ffurflen ar-lein
- lawrlwytho, cwblhau ein ffurflen ymateb ac e-bostio DiwygioDeddfwriaethDigartrefedd@llyw.cymru
- lawrlwytho, cwblhau ein ffurflen ymateb a'i phostio i:

  Tîm Deddfwriaeth Atal Digartrefedd<br>
  Llywodraeth Cymru<br>
  Parc Cathays<br>
  Caerdydd<br>
  CF10 3NQ

Wrth ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, ac yn cynnwys::

- eich new
- eich swydd (os yw'n berthnasol)
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Cyfrinachedd

Gallai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.

**Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu dangos mewn unrhyw ddogfen y gallwn ei chynhyrchu, ticiwch yma**:☐

# Diwygio'r ddeddfwriaeth graidd bresennol mewn perthynas â digartrefedd

## Cwestiwn 1

Ydych chi'n cytuno y bydd y cynigion hyn yn arwain at gynnydd mewn atal digartrefedd a rhyddhad o ddigartrefedd?

Ydw/nac ydw

Ydym, mewn egwyddor.

## Cwestiwn 2

Beth yw eich rhesymau dros hyn?

Mae Cyngor Gwynedd o'r farn gall y cynigion hyn arwain at gynnydd mewn atal digartrefedd a rhyddhad o ddigartrefedd, ond mae angen pwyso a mesur yn ofalus y canlyniadau anfwriadol a all godi yn sgil gweithredu'r cynigion yma. Yn ogystal, mae'r gallu i atal/lleihau achosion o ddigartrefedd yn ddibynnol ar nifer o ffactorau eraill, yn cynnwys y cyflenwad o eiddo, eiddo dros dro ac adnabod adnoddau digonol i gyflawni'r nod. Bydd hefyd angen sicrhau fod hyn yn cal ei ystyried yn llawn o fewn cyd-destun y Cod Arweiniad.

Mae newid diffiniad "dan fygythiad o ddigartrefedd" o 56 niwrnod i 6 mis yn cynnig amser ychwanegol i gyflawni gweithgareddau ataliol. Fodd bynnag, er gwaethaf cael rhagor o amser i wneud gwaith ataliol, teimlwn bod tebygolrwydd uchel y bydd unigolion a theuluoedd yn parhau i gysylltu gyda'r Awdurdod ar y funud olaf, gan adael amser byr i swyddogion gyflawni gwaith ataliol pellach.

Mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r newid arfaethedig, sef ei fod yn ddyletswydd statudol i lunio Cynllun Tai Personol. Bydd hyn yn arwain at fwy o eglurder o gyfrifoldebau'r Awdurdod (a hefyd ar gyfer yr ymgeisydd) ac mae'r egwyddor yn cefnogi'r nod o roi'r unigolyn yn ganolog. Mae'r newid arfaethedig o sefydlu ddyletswydd statudol i adolygu'r asesiad o anghenion a'r Cynllun Tai Personol gyda'r ymgeisydd o fewn 8 wythnos hefyd i'w groesawu. Fodd bynnag, mae hefyd angen pwyso a mesur yn ofalus os yw'r adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni hyn.

Cyfathrebu rheolaidd efo ymgeiswyr – Rydym yn gefnogol o'r cynnig ond yn nodi bod angen canllawiau clir i awdurdodau lleol yn benodol ar amlder y cyswllt, mewn da bryd cyn y daw'r ddarpariaeth i rym.

Parthed y bwriad i gynnig dyletswydd statudol i gynnwys safbwyntiau ymgeisydd ar ei anghenion o ran llety mewn Cynllun Tai Personol, mae angen ystyried yr effaith posibl yn ofalus. Mewn sir ddaearyddol fawr fel Gwynedd, mae canfod llety addas yn y lleoliadau angenrheidiol yn her sylweddol, felly rhaid ystyried nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar yr ymdrechion i leoli unigolion.

Mae'r cynnig i gyflwyno hawl i wneud cais am adolygiad mewn perthynas â'r camau rhesymol yn debygol o gyflwyno haen arall o hawl i ofyn am adolygiad. Ar y sail yma, nid ydym yn cytuno gyda'r cynnig. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod eisoes yn cymryd ystyriaeth o anghenion a dyheadau'r ymgeisydd fel rhan o lunio'r camau rhesymol.

Ni allwn gytuno gyda'r cynnig i roi hawl i wneud cais am adolygiad o addasrwydd llety ar unrhyw bryd tra bod y llety dal wedi'i feddiannu ac bydd angen parhau gyda'r drefn bresennol o gynnwys terfyn amser.

Mi all ychwanegu grwpiau eraill at y prawf cysylltiad lleol gynyddu nifer o gyflwyniadau allan o ardal yn sylweddol, gan fod llawer o unigolion sy'n cyflwyno o du allan y sir yn nodi ar hyn o bryd fod ganddyn nhw gysylltiad teuluol pell gyda'r sir. Pryderwn y gall hyn arwain at gynnydd sylweddol yn y galw ar ein hadnoddau prin (dynol ac ariannol), ac at lesteirio ein gallu i letya'r unigolion a theuluoedd niferus sydd eisoes yn cyflwyno'n ddigartref yn y sir.

Gall diddymu'r prawf bwriadol arwain at gadw'r niferoedd yn uchel. Gan amlaf, defnyddir hwn pan fo ymddygiad gwrth-gymdeithasol mewn eiddo argyfwng a phan fo sawl rhybudd am yr ymddygiad wedi'i roi i'r unigolyn. Mae'r newid arfaethedig yn golygu y byddai'r unigolyn yn parhau i gael ei letya serch ei ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Mae pwysau sylweddol ar draws sawl gwasanaeth ar hyn o bryd. Nid yw'n glir os oes adnoddau digonol ar gael mewn adrannau tai na gwasanaethau cymdeithasol i weithredu'n effeithiol, ynghyd â'r diffyg argaeledd tai/unedau byw o'r math iawn yn y llefydd iawn.

## Cwestiwn 3

Yn eich barn chi, a oes cynigion deddfwriaethol ychwanegol y dylem eu hystyried er mwyn sicrhau gwelliannau o ran atal digartrefedd a rhyddhau pobl o ddigartrefedd?

Mae angen buddsoddiad sylweddol pellach mewn gwasanaethau atal digartrefedd sydd yn gweithredu y tu allan i'r maes gwaith statudol i gynnwys gwaith addysgiadol, a newid diwylliant fel nad ydi dod yn ddigartref yn anorfod yn rhai achosion. Mae hefyd angen ystyried gwaith rhagweithiol sydd y tu hwnt i'r cynigion yn y Papur Gwyn. Mae'r Trydydd Sector, trwy'r Grant Cymorth Tai (a ffynonellau ariannu eraill sydd ddim yn gyhoeddus) yn darparu gwasanaethau sydd erbyn hyn yn gwbl angenrheidiol ac sy'n cefnogi'r gwasanaethau statudol. Mae'r buddsoddiad yn y gwasanaethau hynny yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith statudol i geisio gyflawni'r nod o atal ddigartrefedd.

Mae angen sylw penodol ar dai argyfwng i unigolion sydd yn gadael eu tai oherwydd trais domestig yn hytrach na gor-ddibyniaeth ar hosteli. Bydd angen sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau cyflenwad ddigonol.

## Cwestiwn 4

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol?
Ydw/nac ydw

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr egwyddor i ystyried gwneud hyn, ond yn fyw i'r ffaith y gall arwain at heriau ychwanegol i gyfundrefn sydd eisoes o dan bwysau. Rydym felly'n cytuno gyda'r bwriad, ond bydd rhaid sicrhau mwy o adnoddau i alluogi'r Cyngor i barhau i weithredu'r drefn bresennol yn y Sir.

## Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb?
Ydw/nac ydw

Nac ydym. Byddai diwedd y defnydd o fwriadoldeb yn cael effaith fawr yng Ngwynedd. Heb fwriad does dim mecanwaith i ddod â defnyddwyr gwasanaeth i ben oherwydd ymddygiad gwrth-gymdeithasol/treisgar sy'n torri rheolau llety dros dro Cyngor Gwynedd. Byddai hyn yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth eraill mewn llety dros dro a'r gymuned y mae'r llety wedi'i leoli ynddi. Yn ogystal, gall arwain at golli'r defnydd o'r eiddo yn y dyfodol. O dan y prawf methiant i gydweithredu newydd, nodir y gellid dod â dyletswydd i ben oherwydd ymddygiad bygythiol tuag at staff awdurdodau tai lleol ond nid yw'n glir os yw ymddygiad bygythiol hefyd yn berthnasol i aelodau staff mewn llety dros dro preifat.

## Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig o gadw'r prawf cysylltiad lleol ond ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol?

Yn rhannol. Rydym yn cytuno cadw'r prawf cysylltiad lleol – ond nid ydym yn cytuno gydag ychwanegu grwpiau eraill.

Mae'r cydsyniad o gysylltiad lleol a'i ddefnydd yn bwysig i Wynedd am nifer o resymau. Mae nodweddion arbennig y sir yn golygu bod gennym ddyletswydd i hybu ac annog diwylliant Cymreig y sir. Un canlyniad posibl o'r cynnig yma yw y byddai rhagor o drigolion heb gysylltiad lleol â Gwynedd yn cael eu cartrefu yn y sir gan amddifadu trigolion lleol mewn angen tai. Mae'n anodd rhoi cefnogaeth lawn i'r cynnig yma fel mae'n sefyll, a chredir bod angen mwy o waith datblygu arno.

Mae'r gallu gan garcharorion i gyflwyno i'r gwasanaeth am eu bod eisiau 'cychwyn o'r newydd' yn achosi pryder oherwydd y traul sylweddol y byddai hyn yn ei olygu ar adnoddau'r Awdurdod. Mae'n debygol y byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y nifer o achosion cymhleth mae'r Cyngor yn ymdrin â hwy ynghyd â'r diffyg gallu i gynllunio ar eu cyfer.

Ar hyn o bryd, mae nifer uchel o bobl yn cyflwyno o siroedd cyfagos a gogledd-orllewin Lloegr. Mae Gwasanaeth Digartrefedd Cyngor Gwynedd eisoes yn ei chael hi'n anodd darparu ar gyfer y cleientiaid rydym yn eu cefnogi ar hyn o bryd gan fod diffyg llety preifat fforddiadwy yn yr ardal a phrinder tai cymdeithasol.

Mae cynnwys diffiniadau eang ar gyfer grwpiau megis pobl ifanc o dan 25 oed a phobl sy'n ceisio gwella ar ôl camddefnyddio sylweddau yn rhy gyffredinol. Mae'n bosibl y

byddai hyn yn arwain at gynyddu'r pwysau ar adnoddau'r Gwasanaeth ac felly'n anoddach i dargedu y cymorth i'r llefydd cywir.

Mae'r Cyngor yn cytuno mewn egwyddor gyda'r cynnig i osod dyletswydd newydd ar awdurdodau tai lleol er mwyn helpu person i gadw llety os bydd yr ymgeisydd wedi cael cymorth i sicrhau llety (a allai olygu'r llety y mae'n byw ynddo ar hyn o bryd) neu os bydd yr ymgeisydd wedi cael cynnig llety ac wedi'i dderbyn.

Parthed y prawf culach sy'n nodi nifer bach o resymau cyfyngedig wedi'u diffinio'n glir ar gyfer y prawf methiant afresymol i gydweithredu – mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r cynnig, ond yn awgrymu'n gryf y dylai staff/swyddogion eiddo dros dro/argyfwng a staff sy'n darparu cefnogaeth hefyd gael eu cynnwys yn y diffiniadau.

## Cwestiwn 7

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?

Mae addasu diffiniad "dan fygythiad o ddigartrefedd" (yn benodol cynyddu'r amserlen o 56 niwrnod i 6 mis) yn sicr o gael effaith ar adnoddau a'r angen tebygol i gyflogi mwy o staff (yn y tymor canol beth bynnag) nes daw sefyllfa lle bydd y gwaith rhyddhad digartrefedd yn lleihau. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth lawn i bosibiliadau a thebygolrwydd o gynnydd costau ar wasanaethau gofal yn deillio o'r cynigion i newid. Mae'n bosibl y bydd mwy o achosion angen sylw oherwydd ehangu'r diffiniad cysylltiad lleol.

Mae cydnabyddiaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nad yw nifer o'r costau yn wybyddus ar gyfer y gofynion presennol, heb sôn am y cyfrifoldebau newydd fyddai'n syrthio ar awdurdodau lleol yn sgil y newidiadau arfaethedig. Ble mae costau ychwanegol posib wedi cael eu crybwyll yn y ddogfen, mae gennym bryder, ar sail profiadau'r cyfnod ers 2020, fod y costau hyn wedi cael eu tan-hamcan. Mae'r bwriad o symud i ffwrdd o fod yn ymatebol i fod yn cynnig gwasanaeth ataliol yn egwyddor sydd yn ei le ers nifer o flynyddoedd ac o safbwynt ariannol rydym yn cydnabod yn llwyr fod hyn yn drywydd bydd rhaid ei ddilyn os am gadw gwariant yn y maes o dan reolaeth, ond mae pryder gennym nad oes adnoddau digonol o fewn cyllidebau'r sector gyhoeddus yng Nghymru i ymdrin â'r heriau a'r pwysau ychwanegol sydd yn cael eu cynnig yn y ddogfen ymgynghorol. Byddai'n creu darlun ffals o'r sefyllfa petai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r sefyllfa bresennol fel gwaelodlin, pan nad oes gan wasanaethau digartrefedd yr awdurdodau lleol adnoddau digonol i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd.

# Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd

## Cwestiwn 8

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i osod dyletswydd i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu ar nifer o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd?

Ydw/nac ydw

Rhowch eich rhesymau.

Mae’r angen i gryfhau’r cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus yn amlwg o safbwynt gwasanaethau digartrefedd, mae problem digartrefedd fel arfer yn cyd fynd efo llawer o broblemau cymdeithasol ac iechyd eraill.

Mae’r Cyngor yn croesawu bwriad i gryfhau’r dull aml-asiantaethol o weithio gyda’r defnyddwyr gwasanaeth ac i sicrhau bod gofynion penodol ar bob corff perthnasol. Ein prif bryder yw’r gallu i osod trefniadau effeithiol ar gyfer cydweithrediad asiantaethol gan ystyried bod y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus eisoes o dan bwysau sylweddol.

## Cwestiwn 9

**Ydych chi'n cytuno â'r cyrff perthnasol arfaethedig y byddai'r dyletswyddau i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu yn gymwys iddynt? A fyddech yn ychwanegu neu'n tynnu unrhyw wasanaethau o'r rhestr?**

Mae’r Cyngor yn cytuno â’r cyrff perthnasol arfaethedig.

## Cwestiwn 10

Yn eich barn chi, a ydym wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng gofynion deddfwriaethol ac arferion gweithredol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd?

Mae’r Cyngor o’r farn fod cydbwysedd cywir, fodd bynnag mae angen ystyried yr her o osod trefniadau strategol rhanbarthol cadarn mewn lle. Mae hyn yn golygu ystyried sut y bydd unrhyw drefniadau newydd yn eistedd o fewn byrddau rhanbarthol sydd eisoes mewn bodolaeth a sut y bydd yr ymdrech aml-asiantaethol i leihau digartrefedd yn gweithredu ar lefel weithredol a strategol.

Parthed achosion cymhleth, os oes bwriad i ehangu timau aml-ddisgyblaeth sy’n cynnwys swyddogion o sawl sefydliad, rhaid ystyried adnoddau a hyfforddiant ddigonol. Mae angen hefyd rhoi ystyriaeth i'r angen am gyfathrebu clir a hyrwyddo dealltwriaeth o’r gofynion deddfwriaethol ymysg holl staff.

## Cwestiwn 11

Pa fesurau ymarferol y bydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i'r dyletswyddau arfaethedig i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu weithio'n effeithiol? Gofynnwn ichi ystyried anghenion dysgu a datblygu, adnoddau, staffio, lleoliad a diwylliant.

Gyda'r newid arfaethedig, mae'n angenrheidiol fod yr holl sefydliadau yn ddeall y ddeddfwriaeth digartrefedd, beth ydi cyfrifoldebau yr Awdurdod a hefyd beth ydi eu cyfrifoldebau hwy. Felly, bydd angen hyfforddiant rheolaidd ar gyfer y sefydliadau. Mae'n hanfodol hefyd fod cynllunio gweithgareddau yn cael ei wneud yn draws-sefydliadol gan fod effaith digartrefedd a lles unigolyn yn ymestyn tu hwnt i sefydliadau unigol.

## Cwestiwn 12

Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol i ganfod, atgyfeirio a chydweithredu, mae'r bennod hon yn cynnwys cynigion i gyflwyno gofyniad i gydgysylltu achosion yn well ar gyfer pobl ag anghenion lluosog a chymhleth. I ba raddau y bydd y cynigion yn helpu i atal digartrefedd ymhlith y grŵp hwn?

Mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r egwyddor, fodd bynnag mae'n bwysig bod cydweithio a chyfathrebu effeithiol ar draws asiantaethau ar achosion yn gyffredinol, ac nid achosion cymhleth yn unig. Gallai'r cynigion gynnig potensial i atal digartrefedd mewn achosion cymhleth gan y bydd yn osgoi sefyllfaoedd lle bo'r sefydliadau yn mynd ar draws ei gilydd.

## Cwestiwn 13

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?

Gweler ymateb Cwestiwn 7 paragraff 2.

# Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur

## Cwestiwn 14

A oes unrhyw grwpiau eraill o bobl, heb eu nodi yn yr adran hon, y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt yn eich barn chi, ac y mae angen gweithgarwch wedi'i dargedu ychwanegol i atal a lleihau digartrefedd o'r fath (rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch barn)?

Rydym yn cytuno gyda'r rhestr ym mharagraff 252 o'r Ymgynghoriad, ond buasem yn cynnig cynnwys y grwpiau canlynol hefyd:

- Troseddwyr ifanc
- LGBTQ+
- Sipsiwn a theithwyr

| |
|---|
| Credwn fod y grwpiau a restrir uchod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan digartrefedd oherwydd eu priodweddau arbennig. |

## Cwestiwn 15

Pa gamau deddfwriaethol neu bolisi ychwanegol y gellid eu cymryd i atal neu leihau digartrefedd i'r grwpiau a nodir yn y Papur Gwyn hwn?

| |
|---|
| Mae angen ystyried deddfwriaeth newydd i sicrhau bod trefniadau aml-asiantaethol yn ddisgwyliad ar gyfer y cyswllt cychwynnol gydag unigolion sy'n cyflwyno'n ddigartref i sicrhau bod gwaith ataliol yn gyfrifoldeb ar bawb.<br>Yn achos carcharorion, rydym yn gyffredinol gefnogol o'r cynnig i weithgarwch atal ddigwydd ar y cam derbyn, ond yn bryderus o'r adnoddau a'r cyd-gysylltiad rhwng asiantaethau cyhoeddus sydd ei angen i weithredu.<br>Rydym hefyd yn cytuno gyda'r cynnig i nodi'n glir mewn deddfwriaeth nad yw rhywun sydd yn y carchar yn ddigartref, ond credwn y bydd angen cynllun amserol a rhagweithiol i fynd i'r afael â digartrefedd ar amser gadael carchar.<br>O safbwynt cadw llety rydym yn cytuno gyda'r egwyddor sydd yn bodoli eisoes yn y llwybr (pathway) i garcharorion ac yn cael eisoes yn cael ei weithredu. |

## Cwestiwn 16

Mae ein cynigion ynglŷn â phlant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ceisio gwella ac yn egluro cysylltiadau rhwng deddfwriaeth digartrefedd a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae angen gwaith datblygu polisi sylweddol er mwyn asesu ymarferoldeb hyn. Yn eich barn chi, beth yw manteision a heriau ein dull gweithredu a pha ganlyniadau anfwriadol y dylem baratoi i'w lliniaru?

| |
|---|
| Mae'r Awdurdod Lleol eisoes yn rhoi cefnogaeth i bobl ifanc sydd yn gadael gofal. Mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Cyngor Gwynedd yn ceisio sicrhau bod opsiynau llety ar gael drwy gydweithio gyda'r Trydydd Sector i adnabod llety addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Mae her sylweddol ar hyn o bryd i gynnig llety addas i bobol ifanc ôl-18 gan fod yr opsiynau iddynt i symud ymlaen i fyw yn annibynnol yn brin. Yn ogystal, mae diffyg opsiynau i bobol ifanc gydag anghenion cymhleth i fyw yn annibynnol. |

## Cwestiwn 17

A yw ein cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cael cymorth ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol? Beth yn rhagor y gellid ei wneud i gryfhau ymarfer a chyflawni cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ehangach?

Mae'r Cyngor yn cyflawni cyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol ac yn nodi fod angen adnabod arian cyfalaf sylweddol ar gyfer gweithredu newid. Rydym yn rhoi llety i bobl ifanc 16 a 17 mewn tai gyda chymorth ond mae rhai unigolion sydd yn yr oedran yma yn symud oherwydd maent yn teimlo bod well cyfleoedd all-siriol ac mewn ardaloedd dinesig. Er, mae'r cyfrifoldeb rhiant a corfforaethol am yr unigolion yn parhau gyda'r Cyngor.

Bydd angen bod yn ymwybodol o'r angen i asesu a chomisiynu gwasanaethau cefnogol arbenigol i bobl ifanc 16 a 17 oed sydd yn wynebu neu sydd yn ddigartref.

## Cwestiwn 18

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed allu dal contractau meddiannaeth?

Anghytuno, nid ydym yn cefnogi'r cynnig yma.

Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed yn debygol iawn o fod yn llai ymwybodol o oblygiadau a thelerau cytundebau meddiannu yn enwedig os ydynt yn fregus oherwydd digartrefedd, hyd yn oed gyda chefnogaeth gan wasanaethau cefnogol. Rhaid ystyried bod risg uwch fod unigolion yn gallu cymryd mantais o blant 16 ac 17 bregus trwy ffyrdd treisgar a chamfanteisiol ar gyfer dosbarthu cyffuriau megis llinellau cyffuriau ayyb.

Mae'n bwysig nodi ac ystyried hefyd bod gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb cyfrifoldeb rhiantu dros blant / pobl ifanc sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches, sy'n gallu cyflwyno heriau ychwanegol mewn ardaloedd gwledig.

Gellir ystyried mwy o eiddo cefnogol i unigolion 16 ac 17 i ddysgu sgiliau priodol ar gyfer cynnal tenantiaeth. Os bydd hyn yn cael ei ddiwygio yn y Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) bydd angen edrych ar elfennau eraill o fewn y cytundeb meddiannaeth er mwyn gwarchod pobl ifanc 16 ac 17 sydd yn gadael gofal.

## Cwestiwn 19

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?

Gweler ymateb Cwestiwn 7 paragraff 2.

# Mynediad at lety

## Cwestiwn 20

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion byrdymor i wneud llety yn fwy addas? Yn eich barn chi, a oes camau ychwanegol y dylid eu cymryd ar unwaith ar y diben hwn?

Mae'r Cyngor yn cytuno y dylai llety dros dro fod o safon uchel, ond mae angen sicrhau mai'r prif bwrpas yw cyfarch anghenion sylfaenol yr unigolion ac nad yw yn cael ei ddefnyddio na'i gynllunio i fod yn datrysiad ar gyfer llety hir dymor. Rydym hefyd yn cytuno gyda'r cynnig na ddylai eiddo gyda pheryglon Categori 1 gael ei ddefnyddio fel llety dros dro.

Mae argaeledd llety dros dro a llety argyfwng yn fater o gryn bryder i'r Cyngor. Yn absenoldeb stoc tai hir-dymor digonol, mae gor-ddibyniaeth ar ddefnydd llety dros dro / argyfwng ar hyn o bryd. Mae pontio drosodd i lai o ddibyniaeth ar y llety yma yn flaenoriaeth ac wedi ei gynnwys yng Nghynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym y Cyngor, ond mae hynny gyda'r ddealltwriaeth ein bod yn ddibynnol iawn ar ei ddefnyddio yn y tymor byr a chanolig. Gofynnir felly am ystyriaeth a hyblygrwydd gyda'r cynigion hyn, gan y gallai gweithredu'r cynigion fel y maent olygu na fydd gennym unrhyw ffordd o ddarparu llety dros dro mewn rhai amgylchiadau.

Mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno gofyniad ei bod yn rhaid ystyried yr amgylchiadau personol hyn wrth asesu addasrwydd llety, ond yn datgan pryder y gall argaeledd llety wneud cyflawni hyn yn anodd.

Parthed y cynnig i atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth er mwyn nodi'n glir na ddylid byth ganiatáu lleoli unigolion mewn llety gorlawn wrth benderfynu ar addasrwydd llety – er fod y Cyngor yn cytuno gyda'r egwyddor, gall achosion godi lle nad oes eiddo addas ar gael o gwbl, er enghraifft eiddo ar gyfer teulu efo 9 plentyn.

Yn berthnasol i'r cyfeiriad tuag at ddarparu cymorth (Paragraff 510), bydd angen sicrhau bod y Grant Cymorth Tai yn cael ei adolygu mewn ffordd bositif h.y. ni ddylid ystyried adolygiad ynghyd destun arbed cyllid, ond yn hytrach fel ffordd o adnabod cyfleon i fuddsoddi yn bositif mewn gwasanaethau cymorth tai.

Mae'r Cyngor yn cytuno'n llwyr na ddylai unigolion 16 ac 17 oed fod mewn unrhyw fath o lety oni bai bod cefnogaeth yn cael ei ddarparu fel rhan o'r meddiannaeth.

Parthed y cynnig na ellir ystyried bod llety'n addas oni bai ei fod wedi'i leoli o fewn pellter teithio rhesymol i gyfleusterau, mewn sir ddaearyddol fawr, gyda nifer o ardaloedd gwledig a gofynion niferus a thrwm ar y farchnad dai leol, mae sicrhau llety dros dro addas ar sail lleoliad yn heriol iawn, ac er felly ein bod egwyddor y cynnig yn gadarnhaol, gallai olygu na allwn ddefnyddio nifer o'n lletyai arferol pe bai'r cynnig hwn yn troi'n ofyniad.

Casglu Data (Paragraff 521) - mae casglu data yn dasg gynyddol sydd yn cymryd llawer o amser swyddogion. Os am broffilio argaeledd stoc o lety dros dro yn lleol a chenedlaethol (a'r angen i adrodd ar hynny I'r Llywodraeth) dylid hefyd roi ystyriaeth i ba agweddau eraill o gasglu data yn y maes yma y gellir ei symleiddio / cyfuno / cysoni er mwyn lleihau'r baich casglu ac adrodd data.

Parthed y cynnig i sicrhau dim lleoliadau i bobl dan 25 oed mewn gwely a brecwast – mae'n bwysig nodi fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y gwasanaeth sydd o dan 25 oed yn sengl, ac mae ddiffyg dybryd o eiddo fforddiadwy 1 ystafell wely ar gael yng Ngwynedd. O ganlyniad, mae nifer o oedolion dan 25 oed yn cael eu lleoli mewn gwely a brecwast ar

hyn o bryd. Rydym felly yn datgan pryder am yr argaeledd o lety dros dro priodol ynghyd â'r gallu i gynyddu'r cyflenwad mewn cyfnod byr o amser.

Rydym yn cytuno gyda'r cynnig i gynnwys darpariaeth ar gyfer ystyried mai safleoedd (yn hytrach na llety brics a morter) yw'r llety mwyaf addas, fel arfer, ar gyfer ymgeisydd o gymuned y teithwyr (Sipsiwn, Roma a Theithwyr).

## Cwestiwn 21

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol a rheoli rhestrau aros am dai? Beth ydych chi'n credu fydd canlyniadau'r cynigion hyn?

Paragraff 572 – rydym yn cytuno gyda hyn. Mae cael cydweithrediad landlord cymdeithasol cofrestredig i awdurdod sydd heb ei stoc dai ei hun (fel Gwynedd) yn heriol iawn ar brydiau er gwaethaf bod Polisi Gosod Tai Gyffredin mewn lle. Byddai'r ddyletswydd yma o gymorth mawr felly.

Parthed y prawf ymddygiad annerbyniol, rydym yn cytuno gyda'r cynnig hwn. Mae angen symleiddio'r rheoliadau presennol a gwneud y broses o ddyrannu eiddo cymdeithasol yn fwy seiliedig ar anghenion yn hytrach nag ymddygiad.

Rydym yn cytuno gyda'r cynnig i roi pŵer i awdurdodau lleol dynnu pobl nad oes ganddynt angen o ran tai oddi ar y rhestr aros.

O ran rhoi 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl sy'n ddigartref wrth ddyrannu tai cymdeithasol, rydym yn cytuno gyda'r egwyddor, ond teimlwn yn gryf y dylai hwn fod yn cael ei gynnig a'i weithredu fel pŵer ac nid fel dyletswydd. Gall fod nifer o ganlyniadau anfwriadol posibl gyda gweithredu hyn fel dyletswydd, megis yn bennaf amddifadu nifer o grwpiau o ymgeiswyr mewn gwir angen tai brys ond nad ydynt yn ddigartref, er enghraifft teuluoedd gyda phlant anabl sydd angen tai addas. Mae risg i'r rheiny nad ydynt yn ddigartref, o ddeall y gyfundrefn, gyflwyno i'r Cyngor trwy'r drefn ddigartref gan ychwanegu hyd yn oed mwy o bwysau ar y gwasanaeth, ac mewn mannau eraill cysylltiedig. Dylai pob Awdurdod lleol bwyso a mesur yr angen i weithredu hyn fel pŵer yn seiliedig ar bwysau tai, galw, cyflenwad eiddo, argaeledd eiddo dros dro ayyb. Teimlwn bod goblygiadau ei weithredu fel dyletswydd yn sylweddol a byddai ei effaith yn andwyol ar ein gallu i weithredu ar ran pob carfan o bobl.

Parthed rhoi 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl â phrofiad o fod mewn gofal sy'n ddigartref a'r rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth, fel uchod, rydym o'r farn mai pŵer ac nid dyletswydd ddylai hyn fod.

Rydym hefyd yn cytuno gyda'r gofyniad statudol am Gofrestr Dai Gyffredin/Polisïau Dyrannu Cyffredin.

Parthed cyflwyno 'prawf camddefnydd bwriadol', tra rydym yn cytuno gyda'r egwyddor a'r bwriad, rydym yn anghytuno gyda'r gweithrediad fel mae wedi ei ddrafftio. Tra bo'r cynnig yn ei gwneud yn glir na fyddai camarwain bwriadol yn effeithio ar hawliau pobl sy'n gwneud cais am ddigartrefedd, nid yw'n eglur sut byddai hawl i diddymu "blaenoriaeth resymol" yn gweithio'n ymarferol ac mae risg y byddai'n cynyddu llwyth gwaith swyddogion.

Cwestiwn 22

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd? Beth rydych chi'n rhagweld fydd canlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) y cynnig hwn?

Rydym yn cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno opsiynau tai ychwanegol ar gyfer cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd, ac yn croesawu'r cynigion sydd o fewn y papur.

Cwestiwn 23

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn o ran mynediad at dai. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?

Gweler ymateb Cwestiwn 7 paragraff 2.

# Gweithredu

## Cwestiwn 24

I ba raddau, yn eich barn chi, y bydd y cynigion a amlinellir uchod yn helpu i weithredu a gorfodi'r diwygiadau arfaethedig?

Fel sydd wedi'i fynegi'n barod yn ein hatebion blaenorol, mae egwyddor nifer o'r cynigion i'w groesawu ac rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i gyflwyno Cynllun Ailgartrefu Cyflym sy'n cyfarch yr argyfwng digartrefedd. Rydym yn falch o weld cydnabyddiaeth gan y Llywodraeth o'r pwysau aruthrol sydd ar gyllidebau ac adnoddau sefydliadau yn y sector tai ar hyn o bryd ac yn hynny o beth, teimlwn ei bod yn bwysig ac yn allweddol bod y Llywodraeth yn cydnabod natur hir-dymor y diwygiadau hyn.

Bydd angen gwneud yn siŵr bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud ar gyfer gweithredu rhai o'r cynigion (fel sydd eisoes wedi'i nodi yn ein hymateb), megis ar gyfer darparu llety addas ar gyfer bawb, yn enwedig i unigolion sydd gydag anghenion cymhleth.

Yn gyffredinol, rhaid cael gwell gafael ar wybodaeth a data yn gyffredinol, er mwyn cael darlun llawnach a mwy cyson o’r sefyllfa yn lleol ac yn genedlaethol. Er enghraifft byddai’n fuddiol cael gwell dealltwriaeth o beth sydd ar gael i unigolion sydd wedi cyflwyno yn ddigartref fwy nag unwaith er mwyn sicrhau fod y cylch yn cael ei dorri.

## Cwestiwn 25

Pa ysgogiadau/swyddogaethau/mecanweithiau eraill y gellid eu defnyddio i ddal awdurdodau tai lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn atebol am eu rôl wrth atal digartrefedd?

Mae’r Cyngor o’r farn ei bod yn bwysig i awdurdodau tai, cymdeithasau tai, byrddau iechyd a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus gydweithio i gyrraedd y nod o atal digartrefedd. Dylid sicrhau bod atebolrwydd ar lefel dorfol yn ogystal ag ar lefel unigol hefyd.

Credwn y dylid codi statws swyddogaeth a gwaith atal digartrefedd yn genedlaethol, ac ar lefel strategol i sicrhau ein bod yn llwyddiannus yn ein hymdrechion i ddal gafael ar staff profiadol ac i ddenu staff proffesiynol i mewn i'r maes.

## Cwestiwn 26

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn nodi ein gwaith meddwl cychwynnol ynglŷn â chostau a manteision y cynigion hyn. A oes unrhyw gostau a manteision nad ydym wedi'u hystyried?

Gweler ymateb Cwestiwn 7 paragraff 2.

## Cwestiwn 27

Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiadau arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- A oes unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol, yn eich barn chi?
- A oes unrhyw gyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn eich barn chi?

Rydym yn siomedig nad oes unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn y papur hwn, yn enwedig o ystyried bod sefyllfa dai a digartrefedd unigolion a theuluoedd yn gallu effeithio ar hyfywedd yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau. O ganlyniad, teimlwn bod cyfle wedi'i golli yma.

Heb os dylid sicrhau bod siaradwyr Cymraeg digartref yn cael y cyfle i barhau i fyw mewn cymdeithas ble mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd, gan gynnwys cymunedau gwledig, pe dymunir hynny, a bod plant a phobl ifanc yn gallu parhau i dderbyn addysg Gymraeg. Argymhellir y dylid rhoi sylw i hyn a phwysigrwydd y Gymraeg ym mywydau unigolion a theuluoedd wrth greu'r Cynllun Tai Personol.

Gan fod y papur yn argymell ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau, credwn y dylid dwys ystyried sgil-effeithiau posib gweithredu'r eithriadau uchod ar y Gymraeg. Rhaid adnabod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i gyflwyno eithriadau hyn. Os lleolir siaradwyr di-Gymraeg digartref mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, dylid ystyried ffyrdd o'u cymhathu yn y gymdeithas Gymraeg drwy gydweithio gyda grwpiau cymunedol, datblygu perthynas gyda'r iaith a chynyddu cyfleoedd i'w defnyddio.

Dylid hefyd sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir i gyfathrebu gyda phobl yn glir a dealladwy.

## Cwestiwn 28

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi:

Yn gyffredinol, fel Cyngor, rydym yn cytuno gyda chyfeiriad y cynigion yn y Papur Gwyn, ac yn gefnogol i ddyhead y Llywodraeth o geisio adnabod a lliniaru'r ffactorau sydd yn gyfrifol am y cylchoedd negyddol sy'n gysylltiedig â digartrefedd drwy ddull ataliol sy'n seiliedig ar drefniadau partneriaethol. Mae'r gydnabyddiaeth benodol o fewn y cynigion bod angen i ddigartrefedd fod yn flaenoriaeth a chyfrifoldeb i sawl gwasanaeth cyhoeddus yn sicr i'w groesawu.

Fodd bynnag, mae pryderon yn bodoli am yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynigion hyn ynghyd a'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r newidiadau. Mae'r sector gyfan eisoes yn wynebu her i ymateb i'r galw cynyddol, cymhlethdod yr achosion ynghyd â'r diffyg cyllid sydd ar gael i weithredu'n effeithiol. Os yw'r Llywodraeth am sicrhau fod y cynigion hyn yn arwain at newid "unwaith mewn cenhedlaeth" yn y maes digartrefedd yna bydd rhaid adnabod ffynonellau ariannol digonol am yr hir dymor. Mae'r penderfyniad diweddar i beidio â chodi lefel y Grant Cymorth Tai yn debygol o achosi straen ar wasanaethau a darparwyr ac yn debygol o fod yn rhwystr i unrhyw ymdrech i gynyddu'r mesurau ataliol yn sylweddol fel y cynigir yn y Papur Gwyn. Ochr yn ochr â'r gwaith ataliol, bydd angen parhau i fuddsoddi yn sylweddol trwy'r Grant Tai Cymdeithasol os oes dyhead i gyflymu'r gwaith o adeiladu tai cymdeithasol er hwyluso'r broses o sicrhau cynnydd yn yr opsiynau ar gyfer cynnig llety hir dymor i unigolion.

Enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Manylion cyswllt: